
**Rhif**: **5**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0700-22-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C15/0700/22/LL
Dyddiad Cofrestru: 10/07/2015
Math y Cais*:* Llawn - Cynllunio
Cymuned*:* Llanllyfni
Ward: Talysarn

Bwriad: GOSOD PANELI SOLAR PV AR GYFER CREU PARC SOLAR YNGHYD A GWAITH ATODOL SY'N CYNNWYS FFENS DIOGELWCH A STRWYTHURAU

Lleoliad: PARC, PENYGROES, CAERNARFON, LL54 7SH

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** GWRTHOD

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer gosod rhesi o baneli solar er mwyn creu parc solar ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys ffensys diogelwch a strwythurau amrywiol ar lecyn o dir ger Parc sydd wedi ei leoli i'r gorllewin o Cilgwyn.

1.2 Mae safle'r cais yn mesur 4.89 hectar (12 acer) mewn arwynebedd ac yn cynnwys 3 cae sy'n cael eu defnyddio'n rhannol at ddiben pori defaid. Adnabyddir y rhan yma o'r dirwedd fel cynefin rhostir isel á chreigiau/clogwyni ar y wyneb. Mae'r tir wedi ei raddio fel tir amaethyddol dosbarth 4/5 gan fod ansawdd y pridd yn isel ac mae wedi ei leoli ar lwyfandir agored gyda llethr sy'n rhedeg yn gyffredinol i lawr tua'r gorllewin. Amgylchynir y safle gan waliau cerrig sych o ddyluniad a gwneuthuriad traddodiadol sy'n dyddio rhwng 1840 a 1889 gyda rhai ohonynt, erbyn hyn, yn adfeilion. Lleolir dau bwll naturiol ar gyrion deheuol a gogleddol o fewn ffiniau safle'r cais. Mae'r safle mewn cefn gwlad agored yn y dirwedd sy'n amddifad o unrhyw lystyfiant sylweddol.

1.3 I'r gogledd o'r safle lleolir ffordd ddi-ddosbarth (Lôn Cilgwyn) sy'n gwasanaethu'r cyn-domen sbwriel Cilgwyn ynghyd a nifer o anheddau preswyl ac o'r ffordd yma bwriedir defnyddio'r fynedfa bresennol i wasanaethu'r parc solar. Mae'r fynedfa hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethu'r annedd gwag a adnabyddir fel Parc ynghyd a'r tir amaethyddol cyfagos. Lleolir Mynydd Cilgwyn i'r gogledd-ddwyrain o'r safle. Lleolir bwthyn tyddynwr cynhenid rhestredig gradd II Parc 29m i'r dwyrain o ffin ddwyreiniol y safle gyda ffin y Parc Cenedlaethiol wedi ei leoli 2km ymhellach draw i'r dwyrain. I'r de lleolir anheddau preswyl Clogwyn House 60m o'r safle, Pen Hafodlas 75m o'r safle ynghyd a Braich Melyn sydd wedi ei leoli 55m i'r de o safle'r cais. Lleolir yr annedd Clogwyn Lodge 5m i'r gorllewin ac islawr o safle'r cais gyda'r ffordd sirol dosbarth III (sy'n cysylltu Penygroes a Carmel) wedi ei leoli 2m o'r safle. Lleolir Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Gwarchod Arbennig Glynllifon 3.2km ymhellach draw i'r gorllewin o safle'r cais. O ystyried safiad a gosodiad amlwg safle'r cais yn y dirwedd ceir golygfeydd panoramig o'r tirlun sydd yn amgylchynu'r safle ei hun.

1.4 Lleolir y safle o fewn Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle fel y'i cynhwysir o fewn Rhan 2, Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (CADW ac ICOMOS UK, 1998) gyda nifer helaeth o adeiladau rhestredig ynghyd â nifer o henebion wedi eu lleoli o fewn 2km i safle'r cais gan gynnwys ymylon dwyreiniol Parc Rhestredig Gradd I Glynllifon.

1.5 Mae llwybr cyhoeddus rhif 13 Llanllyfni yn croesi drwy ganol y safle ac yn parhau i'r gogledd fel llwybr troed rhif 53 Llandwrog gyda llwybr cyhoeddus rhif 2

Llanllyfni yn rhedeg cyfochrog a ffin ddeheuol y safle. Mae'r llwybrau cyhoeddus hyn yn rhan o rwydwaith ehangach o hawliau tramwy cyhoeddus sydd yn draws groesi safle'r cais.

1.6 Amcangyfrif byddai'r parc solar yn creu 2.384MW o drydan ar gyfer y rhwydwaith trydanol dosbarthu lleol. Bydd gan y parc solar bywyd gweithredol o 25 mlynedd a'r gallu i bweru 1,140 o gartrefi maint canolig y flwyddyn ac er mwyn diwallu'r nod yma mae'r cais cyfredol hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:-

- 8,998 o modiwlau (paneli) gyda 22 modiwl i bob rhes wedi eu gosod ar draws y safle o'r dwyrain i'r gorllewin yn gwynebu'r de gyda gwagle o 3-4m rhwng y rhesi. Gosodir y paneli ar fframwaith aliwminiwm llwyd mat a bydd y paneli eu hunain o wneuthuriad gwydr caled sydd yn ddi-adlewyrchol. Bydd uchder blaen y paneli yn 0.8m gyda'r cefnau yn 2.33m uwchben y ddaear sy'n golygu bydd y paneli ar ongl oddeutu 25 gradd i'r llorweddol. Gosodir y paneli ar wyneb y tir er mwyn osgoi creu sylfaeni o goncrid.

- Lleoli ceblau tanddaearol er mwyn cysylltu'r paneli solar i'r is-orsaf a'r 2 uned trawsnewid.

- Lleoli 2 uned trawsnewid (sy'n trawsnewid y cerrynt o DC i AC er mwyn cysylltu i'r rhwydwaith trydanol dosbarthu leol) ar ffurf caedle pwrpasol gwydr ffibr 3.6m o uchder, 3m o led a 9.7m o hyd.

- Lleoli is-orsaf 2.4m o uchder, 3.5m o led a 3.5m o hyd ar ffurf cynhwysydd llong wedi ei addasu.

- Gosod ffens diogelwch 2.4 m o uchder o amgylch cyrion y safle o wneuthuriad dur gyda masg weiren carw rhwng y pyst.

- Gosod 4 camera cylch cyfyng 3m o uchder ym mhedwar cornel y safle gyda'r pyst wedi eu paentio'n wyrdd. Mae angen y fath yma o gamerâu gan na fydd bodau dynol yn goruwchilio'r safle.

- Stribyn o dir agored yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle ynghyd a llecyn o dir sgwâr yng nghornel gogledd-dwyreiniol y safle yn cael eu gadael ar gyfer cadwraeth.

- Lleoli 2 hysbysfwrdd ar gyrion deheuol y safle gyferbyn á llwybr cyhoeddus rhif 2 Llanllyfni ac 1 hysbysfwrdd yng nghanol y safle gyferbyn a llwybr cyhoeddus rhif 13 Llanllyfni.

- Cwmpownd adeiladau dros dro gyda mannau parcio a throi ac amcangyfrif bydd y gwaith o gwblhau'r parc solar yn cymryd rhwng 3-4 mis.

1.7 Mae'r dogfennau a restrir isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:-

- Datganiad Cynllunio.

- Datganiad Dylunio a Mynediad.

- Datganiad Trafnidiaeth.

- Asesiad Tirlun a Gweledol gan gynnwys ffotogyfosodiadau a mapiau cylchfannau damcaniaethol gweledol neu *zones of theoretical visibility* (wedi eu tynnu 2km a 5km o ffiniau allanol safle'r cais).
- Gwerthusiad Rhagarweiniol Ecolegol.
- Asesiad Risg Llifogydd a Chynllun Traethbant.
- Asesiad Llacharedd.
- Datganiad Diwylliannol A Threftadaeth.
- Arolwg Geoffisegol
- Datganiad o Ymgymliad y Gymuned
- Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Tirwedd Hanesyddol.

1.8 Mae'r bwriad yma eisoes wedi cael ei sgrinio o dan gyfeirnod C14/ 0965/17/SC a chadarnhawyd nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol yn yr achos hwn.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009 (CDUG):**

POLISI STRATEGOL 1 - MYND ATI I WEITHREDU'N RHAGOFALUS.
Gwrthod cynigion datblygu a fydd yn cael effaith annerbyniol ac amhendant ar yr amgylchedd, y gymdeithas, yr economi neu ar yr iaith Gymraeg neu gymeriad diwylliannol cymunedau ardal y Cynllun.

POLISI STRATEGOL 2 – YR AMGYLCHEDD NATURIOL.
Bydd amgylchedd naturiol a chymeriad tirwedd yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri ac ardaloedd o Harddwch Naturiol Ynys Môn a Llyn yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy wrthod cynigion datblygu a fydd yn eu niweidio'n arwyddocaol.

POLISI STRATEGOL 3 - TREFTADAETH ADEILEDIG A HANESYDDOL.
Bydd treftadaeth adeiledig a hanesyddol yr ardal yn cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau a fyddai'n niweidio'n arwyddocaol a disgwylir i ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd hanesyddol gyd-fynd a safonau dylunio arbennig o uchel fydd yn cynnal neu wella'r cymeriad arbennig.

POLISI STRATEGOL 4 - SAFON DYLUNIO.
Disgwylir i ddatblygiad fod o ddyluniad da er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhao, lle bynnag y bo hynny'n bosib, i'r dirwedd, yr amgylchedd adeiledig a datblygiad cynaliadwy.

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI
Caniatáu cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG
Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.

POLISI B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL
Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL
Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B17 - GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL

Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B21 - CORIDORAU BYWYD GWYLLT, CYSYLLTIADAU CYNEFINOEDD A CHERRIG 'SARN'
Diogelu cyfanrwydd nodweddion tirwedd sy'n bwysig ar gyfer fflora a ffawna gwyllt oni bai bod rhesymau dros y datblygiad yn gorbwyso'r angen i gynnal y nodweddion ac y gellir darparu mesurau lliniaru.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchodir cymeriad gweledol ardal y Cynllun trwy sicrhau mai dim ond llechi Cymreig naturiol neu lechi sy'n debyg o ran edrychiad, lliw a nodweddion hindreulio fydd yn cael eu caniatáu ar doi, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r math o adeilad neu ei leoliad penodol, neu'r manteision o ran cynaliadwyedd yn golygu y byddai deunydd arall yn briodol. Ar gyfer rhannau eraill o adeiladau, disgwylir defnyddio deunyddiau adeiladu o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at gyflwyno deunyddiau sy'n israddol neu'n ymwthiol.

POLISI B34 - LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI
Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun

POLISI C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY
Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY
Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn

bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): Cymeriad y Dirwedd (2009).

CCA:Safleoedd Bywyd Gwyllt (2010).
Canllawiau Dylunio Gwynedd (2003).

2.3 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth, (1996).

Cylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg (1996).

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (2014).

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009).

NCT 6 Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).

NCT 8 Ynni Adnewyddadwy, (2005).

NCT 12 Dylunio, (2014).

Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (2011).

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Fel y cyfeiriwyd ato uchod cyflwynwyd ymholiad o dan rif C14/0965/17/SC yn gofyn am farn sgrinio i'r bwriad hwn o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol)(Diwygio)(Cymru), 2008. Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhawyd, er gall y bwriad cael effaith sylweddol lleol ar sail mwynderau gweledol, tirweddau wedi eu diogelu, ecoleg ac archeoleg, rhagwelir na fydd y bwriad yn cael effeithiau sylweddol ac arwyddocaol ar yr amgylchedd ehangach ac, i'r perwyl hyn, ni fydd angen cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol.

.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanllyfni: | Gwrthwynebu nes bod yr ymgeisydd yn cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn i sicrhau na fydd y bwriad yn amharu'n andwyol ar y dirwedd hanesyddol a gosodiad nodweddion hanesyddol, na fydd y bwriad yn amharu ar fwynderau'r trigolion lleol ar sail sŵn, effaith ar brisiau tai lleol, effaith ar y gymuned yn gyffredinol, pe caniateir y cais dylai'r gymuned elwa'n ariannol hefyd a ddylai'r gymuned cael eu diogelu ar sail gronfa ariannol pe tai'r cwmni yn mynd i'r wal ? |

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llandwrog: | Dim gwrthwynebiad yn amodol fod sgrinio addas wedi ei gynnwys yn y datblygiad. |
| Uned Drafnidiaeth: | Os caniateir y cais bydd angen cynnwys amodau yn ymwneud â:-<br>• Mesuriadau i liniaru effaith fflachio ar ddefnyddwyr y ffordd dosbarth III cyfagos.<br>• Darparu datganiad dull adeiladu.<br>• Adroddiad traffig a chytundeb traffig anghyffredin (er mwyn sicrhau bod y datblygwr yn gyfrifol am gostau atgyweirio unrhyw ddifrod i'r rhwydwaith ffyrdd o ganlyniad i'r gwaith adeiladu). |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau yn ymwneud â :-<br>• Ecoleg – diogelu ystlumod.<br>• Diogelwch-bio.<br>• Rheoli gwastraff a llygredd. |
| Dŵr Cymru: | Dim ymateb. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim ymateb. |
| MoD – Defence Infrastructure Organisation: | Dim gwrthwynebiadau ar sail gwarchod eu hadnoddau. |
| Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd: | Gwrthwynebu gan y buasai'r bwriad yn amharu'n sylweddol ar osodiad yr adeilad rhestredig gradd II a adnabyddir fel Parc ynghyd a'r ardal hanesyddol gerllaw. |
| Uned AHNE Cyngor Gwynedd: | Credir na fydd y bwriad yn amharu'n andwyol ar yr AHNE na golygfeydd i mewn ac allan o'r ardal ddynodedig. |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Cangen Sir Gaernarfon): | Dim yn cefnogi'r cais ar sail:-<br>• Mae'r ffotogyfosodiadau a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos y buasai'r parc solar yn weddol fawr ei raddfa ac yn strwythur amlwg gan ychwanegu elfen newydd sydd allan o gymeriad gyda'r tirlun cyfagos. Er gwaethaf hanes diwydiannol yr ardal ynghyd a gwifrau trydan y Grid Cenedlaethol bernir bod y datblygiad newydd hwn yn gwrthdaro gyda'r ucheldir o glytwaith caeau bach a rhos dir agored. |

- Lleolir y safle yn agos i ffin arfaethedig Ardal Arbennig Tirwedd y Parc Cenedlaethol sydd hefyd yn Ardal Gwarchod y Dirwedd. Mae'r ddogfen Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd gan Gwmni Gillespies (2014) yn argymell nad oes capasiti ar gyfer datblygiadau egni solar ar gaeau o fewn y fath ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at osodiad ardaloedd Gwarchod y Dirwedd ynghyd a'r Parc Cenedlaethol.

- Mae nifer o lwybrau cyhoeddus wrth ymyl ac yn croesi'r safle sydd â gwerth adloniadol sylweddol ynghyd a'r mannau sydd â mynediad agored iddynt gerllaw. Mae'r datganiad tirlun a gweledol yn cydnabod bydd effaith sylweddol ar fwynderau gweledol yr hawliau tramwy cyhoeddus hyn.

- Buasai anheddau ac aneddiadau cyfagos yn cael eu heffeithio gan y datblygiad yma.

Parc Cenedlaethol Eryri: Pryder ar sail:-

- Buasai'r parc solar yn ymddangos fel elfen estron, anghydweddol mewn tirwedd o ddiddordeb hanesyddol oherwydd ei leoliad a'i natur.

- Mae'r safle ar godiad tir gyda llethr ac nid yw'n manteisio o sgrinio naturiol fel gwrychoedd ac, felly, mae ganddo botensial i effeithio'n andwyol ar olygfeydd allan o Barc Cenedlaethol Eryri.

Uned Bioamrywiaeth: Cyflwyno'r sylwadau canlynol:-

- Cynefin - mae safle'r cais yn cefnogi cynefin o bwysigrwydd bioamrywiaeth uchel sy'n cynnwys adar, cen, ymlusgiaid a ffyngau glaswelltir.

- Rhywogaethau - mae'r safle yn gynhaliaeth i nifer o adar fel yr ehedydd a'r bran Gernyw sy'n bwysig ar sail rhywogaethau i fioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r adar hyn hefyd wedi eu cydnabod fel adar o bryder cadwraeth

- Effaith ar fioamrywiaeth y safle - bydd y seilwaith sy'n gysylltiedig â'r bwriad yn difrodi'n sylweddol ar gynefin y rhostir ac mae hyn wedi ei gadarnhau yn y gwerthusiad ecolegol a gyflwynwyd gyda'r cais.

- Bydda'r bwriad yn golygu colli/difrod i 4.89ha o gynefin rhos dir sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd.

- Byddai'r strwythurau a'r holl fframwaith y paneli solar yn golygu colli cynefin magu'r ehedydd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Byddai defnyddio peiriannau trwm dros wyneb y tir yn difrodi'r pridd drwy cywasgiad gyda'r canlyniad o golli ffyngai glaswelltir.

- Byddai'r paneli solar yn newid hinsawdd micro y creigiau a'r clogfeini sydd ar y safle a byddai hyn, yn ei dro, yn ei wneud yn anaddas ar gyfer rhywogaethau cenedlaethol cen prin.

- Mae'r safle yn bwysig yn y tirwedd lleol sydd wedi ei nodweddu gan gaeau bach a waliau cerrig sych traddodiadol rhyngddynt.

- Mesuriadau lliniaru - mae mesuriadau lliniaru wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad ecolegol ond, credir, na fydd y rhain yn digolledu'r golled gynefin a'r rhywogaethau ar y safle

- O ganlyniad i'r pryderon uchod argymhellir fod y cais yn cael ei wrthod. Pe tae'r cais yn cael ei ganiatau yn groes i'r argymhelliad hwn byddai rhaid ail-ymgynghori gyda'r Uned Bioamrywoaeth er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth bywyd gwyllt yn cael eu cydymffurfio a hwy drwy osod amodau cynllunio perthnasol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Gwrthwynebu ar sail:-

- Nid yw'r Asesiad Tirlun a Gweledol, asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol ynghyd a'r Asesiad Archeolegol yn ddigon manwl parthed effaith y bwriad ar osodiad y dirwedd hanesyddol. Nid yw'r ffotogyfosodiadau wedi eu tynnu o'r mannau hynny ble mae'r safle fwyaf gweledol yn enwedig o'r de, gorllewin a chyfagos i'r safle ei hun.

- Bydd yr asesiad potensial archeolegol angen cyfiawnhad pellach.

- Pryder ynglŷn â'r effaith andwyol anuniongyrchol ar Ffermdy Parc sy'n adeilad rhestredig gradd II ac sydd heb dderbyn ystyriaeth fanwl yn Natganiad Diwylliannol a Threftadaeth. Er bod caniatâd cynllunio ar gyfer sied amaethyddol gerllaw, sydd a'r gallu i gael effaith andwyol ar osodiad y ffermdy, ni fydd y fath effaith yn gyffelyb a datblygiad mor fawr â'r parc solar arfaethedig. Rhaid ystyried yn fanwl effaith cronnus y sied ynghyd a'r parc solar ar osodiad y ffermdy. Mae'r ffermdy ei hun ar restr CADW o adeiladau dan risg

a buasai unrhyw ddatblygiad anaddas gerllaw yn tanseilio unrhyw obaith o adnewyddu'r ffermdy drwy gadarnhau cynaladwyaeth tymor hir y daliad amaethyddol.

- Mae diffygion yng nghanlyniadau'r Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol gan nad yw'n cymryd i lawn ystyriaeth pwysigrwydd y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd enwebedig. Beth bynnag fydd canlyniadau'r enwebedigaeth yma mae'r ffaith ei fod ar y rhestr yn ei hun yn cadarnhau pwysigrwydd yr ardal i dreftadaeth Cymru

- Mae'r Datganiad Tirlun a Gweledol yn datgan bydd "effeithiau gwrthwynebus sylweddol lleol ar y tirwedd hanesyddol" drwy gyflwyno "elfennau di-gymeriadol ac amlwg". Mae'r datganiad yma yn dangos yn glir y posibilrwydd o'r bwriad yn amharu'n faterol i gymeriad a gwerthfawrogiad yr ardal Rhestredig hwn. Ni all unrhyw waith lliniaru gorestyn y pryder hyn.

- Gan ystyried y pryderon uchod argymhellir bod y bwriad yn cael ei wrthod

CADW:

Nid yw'r dogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais yn asesu'n ddigonol effaith y bwriad ar nifer o asedau hanesyddol dynodedig (hynny yw, henebion cofrestredig, Parc o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Glynllifon ynghyd a'r dirwedd cloddio llechi Nantlle/Moel Tryfan sydd yn ffurfio rhan o gais y Cyngor a CADW i enwebu'r ardal fel Safle y Byd Llechi Cymru - Safle Treftadaeth y Byd). Bydd angen gwybodaeth bellach yn ymwneud á :-

- Cydymffurfio a'r cyngor a gynhwysir yn nogfennau Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (2014) a Chylchlythyr 60/96 parthed diogelu henebion a'u gosodiadau

- Ffotogyfosodiadau ychwanegol sy'n cadarnhau na fydd y bwriad yn amharu ar henebion gerllaw'r safle.

- Angen ail-asesu camau 4 a 5 o'r Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Tirwedd Hanesyddol er mwyn sicrhau na fydd y bwriad yn tanseilio cynnig y Cyngor a CADW i enwebu'r ardal fel dynodiant Safle Treftadaeth y Byd.

Yn ychwanegol i'r uchod cynigir y sylwadau isod:-

- Mae lleoliad y parc solar yn brif fantais sy'n cynnig golygfeydd ar draws y tirlun hanesyddol i bob cyfeiriad

ac yn enwedig tua Dyffryn Nantlle a chwareli Tan yr Allt/Dolbebin. Mae'r ardal hon wedi cadw cysylltiadau treftadaeth bwysig ynghyd a chysylltiadau hanesyddol a chredir nad yw'r tomeni llechi yn Nyffryn Nantlle wedi cael llawn ystyriaeth gan yr ymgeisydd.

- Er bod rhan 2 a 3 o'r Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol yn cynnig asesiad derbyniol o'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ardaloedd cymeriad y tirlun hanesyddol mae rhan 4 a 5 o'r asesiad yn tanbrisio pwysigrwydd yr ardaloedd hyn mewn perthynas â'r tirlun hanesyddol cofrestredig yn ei gyfanrwydd.

Yn dilyn derbyn pryderon yr Uned Bioamrywiaeth, Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ynghyd a phryderon CADW i'r bwriad cyflwyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan asiant yr ymgeisydd ar sail ymateb drwy adroddiad bur i bryderon yr Uned Bioamrywiaeth, ffotogyfosodiadau sy'n cyfeirio'n uniongyrchol i chwarel Dorothea, ail-asesu camau 4 a 5 o'r Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol ac eglurhad ar sut na fydd y datblygiad yn amharu ar yr ymgais i ddynodi'r ardal fel Safle Treftadaeth y Byd.

Mewn ymateb i'r wybodaeth uchod cyflwynwyd y sylwadau diweddaraf isod gan yr ymgynghorwyr statudol perthnasol:-

Uned Bioamrywiaeth :-

- Rhagwelir na fydd y bwriad yn amharu ar gynefin y bran Gernyw.
- Byddai'r parc solar yn cael effaith andwyol sylweddol ar ehedydd sy'n defnyddio'r safle i fagu.
- Byddai'r bwriad yn cael effaith ar ffwng glaswelltir.
- Byddai'r bwriad yn golygu, o bosib, disodli'r creigiau a'r clogfeini neu byddent yn cael eu cysgodi gan y paneli eu hunain gyda'r canlyniad o newid cynefin micro'r safle a gall y fath sefyllfa olygu colli rhai o gen sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Byddai'r safle yn gymwys ar gyfer ei ddynodi fel Safle Bywyd Gwyllt ar sail ei fod yn ardal rhostir o arwyddocâd uchel lleol.
- Byddai'r holl seilwaith bwriedig (gan gynnwys gosod ceblau o dan y ddaear) yn difrodi cynefin y rhostir ac yn creu safle a fyddai'n anaddas ar gyfer man magu i'r ehedydd.
- Nid yw'r mesuriadau lliniaru a gynhwysir yn y Gwerthusiad Ecolegol yn ddigonol o ganlyniad

i ddifrodi a cholli'r rhostir. Nid yw'r mesuriadau hyn yn darparu cynefin ychwanegol nac ychwaith ydyw'n darparu cynefin magu ychwanegol i'r ehedydd ac yn ychwanegol i hyn mae'n anodd iawn ail-greu cynefin rhostir. Er bod y bwriad yn darparu ardaloedd bach o gynefin presennol (ar ffurf stribyn o dir sy'n rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle) mae'r bwriad yn ei gyfanrwydd yn golygu gwir golled o gynefin a bioamrywiaeth.

- Mae'r ddogfen CCA: Safleoedd Bywyd Gwyllt yn ategu Polisi B17 o GDUG ar gyfer diogelu'r fath safleoedd ac yn datgan bydd rhaid ystyried y safleoedd hyn sy'n cydymffurfio a chanllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt fel petaent wedi eu dynodi'n ffurfiol fel Safleoedd Bywyd Gwyllt. Mae'r safle arbennig hwn yn un o'r safleoedd hyn sy'n gymwysedig i'r fath ddynodiant.
- Mae Polisi B21 o GDUG yn datgan gwrthodir cynigion os ydynt yn gwneud niwed i gyfanrwydd neu barhad y nodweddion tirwedd (coridorau bywyd gwyllt, cysylltiadau cynefinoedd a Cherrig Sarn) sy'n bwysig iawn ar gyfer fflora a ffawna gwyllt ac sydd wedi eu rhestru gan UK BAP (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth), Adran 42 o'r Ddeddf *Natural Environment and Rural Communities* (2006). I'r perwyl hyn, mae'r safle yn cefnogi cynefin a rhywogaethau sydd wedi eu rhestru gan y sefydliadau a'r deddfau uchod a'r prif amcan o fewn cynllun gweithredu bioamrywiaeth rhostir yw cynnal a diogelu'r fath gynefinoedd prin. Buasai datblygu'r safle hwn ym Mharc yn arwain at ddarniad y cynefin rhandir a buasai hyn, wedyn, yn groes i ofynion Polisi B21 o GDUG.
- Gan ystyried y sylwadau uchod mae'r Uned Bioamrywiaeth yn gwrthwynebu i'r bwriad ar sail colli/achosi difrod i oddeutu 5 ha o gynefin rhandir sy'n gynefin o bwysigrwydd Ewropeaidd. Yn ychwanegol i hyn, buasai yn golygu colli man magu ar gyfer yr ehedydd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd :-

- Mae'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol ynghyd a'r Asesiad Tirlun a Gweledol yn gwaethygu cynnwys y dogfennau eu hunain.
- Nid yw'r ymgynghorwyr wedi sylweddoli'r rhagosodiad o enwebu'r ardal fel Safle

Treftadaeth y Byd sydd yn cynnwys llawer mwy na'r gweithfeydd chwareli ac o ganlyniad i'r gwendid hwn mae eu hasesiad o'r mater yn ddiffygiol.

- Mae pwysigrwydd arwyddocâd tirlun bwthyn y chwarelwr wedi ei osod allan yn llyfr diweddar Dafydd Gwyn *Welsh Slate*.
- Nid yw'r argymhelliad gwreiddiol i wrthod y cais wedi newid.

CADW:-

- Yn dilyn ystyriaeth ddwys o'r wybodaeth ychwanegol mae pryder nad yw'r ymgeisydd wedi dadansoddi pwysigrwydd y safle datblygu ynghyd a'i osodiad.
- Credir bydd y bwriad yn cyflwyno elfen modern ac anghydnaws yn Nhirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle sydd wedi ei gydnabod yn rhyngwladol fel tirwedd pwysig y diwydiant echdynnu llechi sydd wedi cadw ei gymeriad hanfodol.
- Mae'r diwygiadau i'r Asesiad Archeolegol a Threftadaeth yn rhagdybu na fydd safle'r cais yn cael ei gynnwys o fewn y cynnig i ddynodi'r ardal fel Safle Treftadaeth y Byd. Mae hyn er gwaethaf cyngor blaenorol CADW sy'n datgan bydd rhan o'r ardaloedd cymeriad, os nad hwy oll, mwy na thebyg yn cael eu cynnwys o fewn Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
- O ystyried yr uchod mae'r Asesiad Archeolegol a Threftadaeth yn tan bwysleisio arwyddocâd a maint effaith y bwriad ar gymeriad y tirlun ynghyd a'r cynnig i gynnwys yr ardal fel Safle Treftadaeth y Byd.
- Gall y bwriad tanseilio'r ymdrech i enwebu'r ardal fel Safle Treftadaeth y Byd drwy ei effaith negyddol ar y tirlun.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybuddion o amgylch y safle, hysbysebwyd y cais yn y wasg a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Byddai'r bwriad yn amharu'n andwuol ar yr amgylchedd leol ac yn enwedig ar fwynderau'r llwybrau troed cyhoeddus sydd gerllaw'r safle ac sy'n rhedeg drwy'r safle ei hun.
- Byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r ymgais i ddynodi'r ardal fel Safle Treftadaeth y Byd.
- Byddai'r bwriad yn amharu'n andwuol ar bwysigrwydd y safle fel cynefin fflora a ffawna.

- Byddai'r bwriad yn amharu ar lonyddwch yr ardal wledig hon.
- Byddai'r diddordeb ac integredd hanesyddol yr ardal yn cael ei danseilio pe caniateir y cais.
- Byddai uchder ac amlygrwydd y paneli solar ynghyd a'r datblygiadau eraill sy'n rhan o'r cais fel yr is-orsfa a'r ffens diogelwch yn creu strwythyrau anghydnaws yn y tirwedd agored ar draul mwynderau gweledol.
- Amharu ar fwynderau preswyl trigolion cyfagos ar sail aflonyddwch sŵn gyda'r gwyntoedd cryfion yn rhuo'r drwy'r fframwaith sy'n angori'r paneli i'r ddaear - asesiad sŵn heb gael ei gyflwyno gyda'r cais.
- Ni gelli'r sgrinio'r datblygiad oherwydd diffyg llys tyfiant ar y safle ei hun ac o amgylch y safle.
- Bwriad yn creu strwythur gormesol i ddeiliaid cyfagos ynghyd a cholli preifatrwydd ar sail bodolaeth y camerâu cylch cyfyng.
- Byddai'r bwriad yn amharu ar ddiogelwch defnyddwyr y ffordd gyfagos.
- Byddai'r bwriad yn amharu ar yr adeilad rhestredig gradd II Parc gerllaw ac mae canllawiau ymarfer gorau yn datgan ni ddylai parciau solar cael eu lleoli ger adeiladau rhestredig.
- Effaith negyddol yn lleol yn ystod y gwaith adeiladu ac wedyn yn ystod y gwaith di-comisiynu.
- Dim digon o wybodaeth ynglyn â methodoleg y gwaith adeiladu.
- Buasai elfen o olau ar gyfer mynediad nos i'r safle yn amharu'n andwyol ar fwynderau'r trigolion lleol.
- Nid yw'r ffotogyfasodiadau yn wir adlewyrchu ad-drawiad y datblygiad ar y tirlun a buasai'r datblygiad yn weladwy o olygfeydd agos a phell.
- Mae anghysondeb yn y wybodaeth a gyflwyniwyd ynglyn a'r union niferoedd y paneli/modiwlau solar sy'n destun y cais yma.
- Pryder ynglŷn â llygredd a all deillio o'r safle wrth gario allan gwaith adeiladu.
- Pryder ynglŷn â'r angen i sicrhau na fydd unrhyw ddŵr hwyneb a all deillio o'r bwriad yn cael ei gyfeirio tuag at anheddau a'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos.

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys gan gynnwys:

- Byddai'r bwriad yn effeithio'n andwyol ar brisiau tai cyfagos, ar dwristiaeth yn y rhan yma o Eryri ynghyd â busnesau lleol.
- Ni fuasai'r parc solar o fudd i'r boblogaeth/cymuned leol a dim ond yr ymgeisydd a

pherchennog y tir fydd yn elwa o'r datblygiad.
- Nid yw'r ymgeisydd wedi ymgynghori â phawb sy'n byw yn lleol - lleiafswm o ymgynghoriaeth wedi ei ymgymryd gan yr ymgeisydd.
- Mae'r cynllun lliniaru tirweddu diwygiedig yn cynnwys tir sydd ddim ym mherchnogaeth yr ymgeisydd ac nid yw'r perchennog yn fodlon rhoi'r hawl i'r ymgeisydd ymgymryd gydag unrhyw waith lliniaru ar y tir hwn

Derbyniwyd nifer helaeth o ohebiaeth yn cefnogi'r cais ar sail:

- Dylid cefnogi ffermwyr lleol yn arallgyfeirio o'u gweithgareddau ffermio - cefnogi menter wledig.
- Dylid cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yng Ngogledd Cymru ac yn y gymuned leol.
- Mae topograffi'r tirlun yn golygu na fydd y rhan fwyaf o'r bwriad yn weladwy.
- Mae ffermydd solar yn dderbyniol ar sail yr amgylchedd ac yn llai gweladwy na safleoedd ynni adnewyddadwy eraill fel ffermydd gwynt.
- Bydd cadw ac ail-godi waliau sych yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r bywyd gwyllt presennol parhau heb gael ei aflonyddu. Gall y datblygiad solar hwn cynorthwyo bioamrywiaeth yn yr ardal drwy greu cynefinoedd micro.
- Mae llawer o strwythurau dynol eraill i'w gweld yn yr ardal a dylid ystyried hyn wrth ddod i benderfyniad ar y cais cynllunio.
- Mae'r tir o ansawdd amaethyddol isel ac yn cyfyngu'n sylweddol ar y defnydd economaidd gellir ei wneud ohono. Mae'r cynllun yn gyfle arbennig i wneud defnydd da o dir amaethyddol o ansawdd isel.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy wedi ei selio ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (2014) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 8 Ynni Adnewyddadwy (2005). Mae cyngor pellach i'w gael yn nogfen Llywodraeth Cymru Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (2011). Mae'r dogfennau hyn yn datgan dylid cefnogi datblygiadau solar cyn belled eu bod yn dderbyniol ym mhob agwedd cynllunio arall. Yn yr un modd mae Polisi Strategol 9 CDUG yn gefnogol mewn egwyddor i'r bwriad o gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn amodol ar ystyried a chydymffurfio gyda'r holl faterion cynllunio perthnasol. Mae nifer helaeth o'r polisïau yng NgDUG yn berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau unigol am gynlluniau ynni adnewyddadwy yng Ngwynedd.

5.2 Mae Polisi C1 o GDUG yn ymwneud a lleoli datblygiadau newydd ac mae'n datgan mai tir oddi fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf datblygedig pentrefi

gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd ar wahan i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatau gan bolisi arall yn y Cynllun megis datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddiadwy.

5.3 Y prif bolisi i'w ystyried wrth asesu **egwyddor** y datblygiad hwn yw Polisi C27 o GDUG. Mae'r polisi yn ymwneud a chynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy ac mae'n caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r meini prawf yn datgan:-

- Nad yw'r datblygiad yn golygu lleoli cynllun gyda chynhwysedd uwch na 5mw o fewn AHNE Llyn, neu na fyddai unrhyw gynllun sydd wedi cael ei leoli tu allan i AHNE Llyn yn achosi niwed arwyddocaol i'w osodiad neu osodiad AHNE Llyn/Mon neu Barc Cenedlaethol Eryri;
- Bod math, graddfa, a dyluniad y datblygiad arfaethedig yn briodol o safbwynt y safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd;
- Bod unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig yn cael ei ddylunio a'i leoli mewn modd fydd yn lleddfu'r effaith weledol ar y dirwedd;
- Na fydd unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd;
- Na fydd y datblygiad arfaethedig yn peri cynnydd annerbyniol mewn lefelau sŵn, drewdod, llwch na nwyon;
- Na fydd unrhyw niwed annerbyniol i systemau hydrolegol gan niweidio bioamrywiaeth;
- Na fydd y datblygiad yn cynhyrchu lefelau traffig annerbyniol o ystyried ansawdd y ffyrdd a natur yr ardal oddi amgylch.

5.4 Mae'r eglurhad sy'n atodol i'r polisi hwn yn datgan yn glir rhaid fydd cefnog'r angen am ddatblygiadau o'r fath yn erbyn eu heffaith bosib ar ansawdd gweledol y dirwedd ac ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol eraill. Ystyrir bod yr holl feini prawf a gynhwysir ym Mholisi C27 yn berthnasol i'r cynnig cyfredol hwn a rhoddir sylw iddynt isod.

5.5 **Maen prawf 1** – Yn yr achos yma nid yw'r safle wedi ei leoli o fewn neu yn agos i AHNE Llyn nac ychwaith o fewn golygfeydd i fewn neu allan o'r AHNE. Fodd bynnag, lleolir y datblygiad o fewn 2km i'r gorllewin o'r Parc Cenedlaethol ac mae pryder eisoes wedi ei leisio gan swyddogion y Parc ar sail potensial y bwriad i effeithio'n andwyol ar olygfeydd allan o'r Parc ei hun.

5.6 Fel rhan o'r cais cyflwyniwyd Asesiad Tirlun a Gweledol sy'n cynnwys ffotogyfosodiadau wedi eu tynnu o fewn 2km a 5km o safle'r cais ac wedi eu selio ar fapiau cylchfannau damcaniaethol gweledol. Mae nifer o luniau wedi eu tynnu o'r pedwar cyfeiriad tuag at safle'r cais ac oddi fewn i safle'r cais yn edrych allan ac ystyrir na fydd ad-drawiad sylweddol nac arwyddocaol ar olygfeydd allan nag i mewn o'r AHNE ac mae hyn eisoes wedi ei gadarnhau gan yr Uned AHNE. Lleolir ffin y Parc Cenedlaethol llawer agosach (2km) i leoliad y cais cynllunio ac oddi fewn i'w osodiad. Mae'r lluniau a dynnwyd o'r gorllewin ac o'r de o bellter yn cadarnhau na fydd y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i osodiad y Parc gan ystyried topograffi'r dirwedd o amgylch y safle gyda'r parc solar yn cael ei weld yng nghyd-destun ehangach y dirwedd ddiwydiannol ac, o bellter, ni fydd yn cael ad-drawiad

sylweddol ar olygfeydd i mewn nag allan o’r Parc ei hun. Fodd bynnag, mae’r rhan uchaf o’r parc solar ar lethr uwch na gweddill y datblygiad gyda thirwedd y Parc fel cefnlen iddo.

5.7 Mae mannau tramwyo cyhoeddus poblogaidd gerllaw gan gynnwys llwybr rhif 2 Llanllyfni (sy’n rhedeg ar hyd ffin ddeheuol safle’r cais), llwybr rhif 13 Llanllyfni (sy’n rhedeg drwy’r safle) ynghyd a Ffordd Cilgwyn (sy’n rhedeg ar hyd ffin ogleddol y safle) ac mae cerdded y rhain yn amlygu’r gwrthdaro rhwng tirwedd y Parc a strwythurau anghydnaws y parc solar i’r llygaid a chredir, o’r safbwynt yma, bydd y bwriad yn achosi niwed arwyddocaol ar osodiad tirwedd y Parc ei hun. Mae’r safle yn amlwg iawn hefyd o Fynydd Cilgwyn i’r gogledd-ddwyrain o safle’r cais ond, er hyn, bydd unrhyw olygfa ohono o’r man yma yn olygfa uniongyrchol tua’r de a’r gorllewin yn hytrach na thuag at y dwyrain ble lleolir y Parc Cenedlaethol. Gan ystyried yr uchod credir, felly, bod y rhan uchaf o’r datblygiad yn amharu’n sylweddol ar osodiad tirwedd a golygfeydd nodedig i mewn i’r Parc Cenedlaethol ar draul mwynderau gweledol ac, felly, nid yw’n cydymffurfio gyda’r maen prawf cyntaf.

5.8 **Maen prawf 2 -** Mae’r bwriad ar gyfer lleoli nepell o 9,000 o baneli solar wedi eu gosod mewn rhesi ar safle sy’n mesur 4.89ha (12 acer). Mae gwaith diweddar gan Gwmni Gillespies (2014) ar ran y Cyngor yn asesu sensitifrwydd a chapasiti’r dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau fel ffermydd solar. Yn ôl y gwaith mae safle’r cais wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G04 Caernarfon-Arfordir a Llwyfandir a chanfyddiadau’r gwaith sy’n berthnasol i’r ardal hwn oedd:-

- O fewn yr AHNE, Ardal Tirwedd Arbennig a’r holl ardal sydd yn effeithio ar ei osodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd **nid oes** unrhyw gapasiti ar gyfer ffermydd solar.
- Y tu allan i’r ardal yma **efallai** bod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiad lefel micro (diffinnir micro yn nhermau ffermydd solar o dan 1ha. mewn maint).

5.9 Mae’n bwysig nodi yma fod yr asesiad yn amlygu fod lefelau sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd ac y dylid ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ynghyd ag ymweld a phob safle’n unigol cyn pendefynu os yw natur y safle penodol yn golygu y gellir ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy na’r hyn a argymhellir yng ngwaith Gillespies. O ymweld a’r safle ynghyd ac ystyried natur, ffurf a graddfa’r bwriad fel y’i cyflwyniwyd a chan ystyried bod y safle wedi ei leoli oddi fewn i osodiad y Parc Cenedlaethol, mae’n glir nad oes unrhyw gapasiti ar gyfer ffermydd solar yn y rhannau yma o’r tirlun. Hyd yn oed pe tae’r safle wedi ei leoli tu allan i osodiad y Parc credir buasai’r bwriad yn parhau i fod yn annerbyniol ar sail ei raddfa a’i faint ar sail ei leoliad ar safle sydd yn fwy na 1ha.mewn maint ac, felly, ystyrir nad yw ar lefel *micro*. Daw’r Asesiad Tirlun a Gweledol i’r canlyniad, er y byddai effaith niweidiol ar y dirwedd y tu mewn i’r safle (*substantial/severe adverse impact)* mai bychan (*imperceptible/slight adverse impact)* fyddai effaith y bwriad ar gymeriad yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae’r lluniau/ffotogyfosodiadau a dynwyd o fewn 2km i’r safle o Fynydd Cilgwyn ac o’r ffordd sirol dosbarth III yn cadarnhau bydd y safle yn weledol iawn yn y tirlun lleol o’r mannau cyhoeddus hyn ac o’r safbwynt yma credir nad yw’r bwriad yn cydymffurfio gyda’r ail maen prawf.

5.10 **Maen prawf 3 -** Fel y cyfeiriwyd ato eisoes mae’r llecyn tir ble bwriedir creu’r parc solar yn llecyn o dir agored yn y dirwedd sy’n amddifad o unrhyw lystyfiant

sefydledig. Bydd elfen fechan o sgrinio i'w gael gan y waliau cerrig sych sydd yn amgylchynu'r rhan helaeth o'r safle ac mae'r rhain yn amrywio mewn uchder o 700mm hyd at 1.8m. Mae nifer helaeth o gyfarpar atodol i'r paneli solar sy'n cynnwys cynhwysydd ar gyfer yr is-orsaf, dwy uned trawsnewid, ceblau tanddaearol, 4 camera cylch-cyfyng ar byst 3m o uchder ynghyd a chodi ffens diogelwch 2.4m o uchder o amgylch y safle. Er y credir na fydd y ceblau tanddaearol yn creu nodweddion anghydnaws yn y dirwedd credir bod y cyfarpar cysylltiedig eraill, yn eu cyfanrwydd, yn creu nodweddion estron ac anghydnaws yn y tirlun o ystyried y ffaith nad yw cymeriad ac edrychiad safle'r cais wedi newid rhyw lawer ers diwedd y 19eg ganrif. Daw'r nodweddion anghydnaws yma yn fwyfwy amlwg wrth nesáu tuag at safle'r cais ei hun a chredir na fydd presenoldeb y waliau cerrig sych yn ddigonol i leddfu'r effaith gweledol bydd yr amryw gyfarpar atodol yn cael ar fwynderau gweledol y rhan yma o'r tirlun. Mae'r cyfarpar atodol hyn yn cynnwys strwythurau sydd wedi eu lleoli a'u dylunio'n bwrpasol ac o ganlyniad i hyn bydd yn anodd iawn i'w hassimileiddio yn y tirlun agored sy'n nodweddiadol o'r ardal hon. Gan ystyried yr uchod credir na fydd y bwriad yn cydymffurfio gyda'r trydydd maen prawf.

5.11 **Maen prawf 4 -** Yn ôl y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais bydd wifrau yn cysylltu gyda'r rhwydwaith cyflenwad trydan lleol yng nghornel ddwyreiniol y safle (islaw'r eiddo a adnabyddir fel Parc) am hyd oddeutu 120m. Gan ystyried graddfa a natur y rhan yma o'r bwriad credir na fydd yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y tirlun.

5.12 **Maen prawf 5** – Nid yw natur y datblygiad yn golygu bydd unrhyw gynnydd mewn drewdod, llwch na nwyon yn ystod y cyfnod gweithredol er ei bod hi'n anorfod bydd cyfnod o aflonyddwch lleol yn ystod y cyfnod adeiladu a rhagwelir bydd y cyfnod yma'n parhau am 3-4 mis. Fodd bynnag, mae gohebiaeth wedi eu derbyn gan digolion lleol yn datgan eu pryder ar sail aflonyddwch swn ar sail gwyntoedd cryfion yn rhuo drwy fframwaith eang y paneli solar. Nid oes asesiad swn wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Fodd bynnag, cyflwyniwyd Asesiad Llacharedd (*glare)* gyda'r cais a daw i'r canlyniad bod posibilrwydd bydd rhywfaint o effeithiau llacharedd yn weladwy o rhai o'r anheddau a'r ffyrdd cyfagos ond ei bod hi'n bosibl i'r waliau cerrig sydd yn amgylchynu'r safle lleihau yr effaith o lacharedd er ni gellir cadarnhau hyn ar hyn o bryd. Er hyn, ni ddisgwylir i unrhyw lygredd lacharedd fod yn sylweddol a ni chredir byddai'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r trigolion lleol nac ychwaith i ddefnyddwyr y ffyrdd cyfagos. O osod amodau lliniaru llacharedd priodol mae'n bosib goresgyn y pryder hwn. I'r pewyl hyn, credir fod y bwriad yn cydymffurfio a'r pumed maen prawf.

5.13 **Maen prawf 6 -** Cyflwyniwyd Asesiad Risg Llifogydd a Chynllun Traethbant gyda'r cais (gan fod y safle wedi ei ddynodi fel Parth Llifogydd A yn unol a gofynion NCT 15) a daw i'r canlyniad bydd unrhyw gynnydd yn y dwr gwyneb sy'n rhedeg i lawr tuag at ffiniau'r safle yn ddibwys o'i gymharu a'r sefyllfa bresennol. Er nad yw'r Asesiad yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at effaith dwr wyneb ar bioamrywiaeth safle'r cais, o ystyried bydd unrhyw gynnydd o dwr wyneb ar ol cwblhau'r gwaith yn ddibwys, credir na fydd unrhyw niwed yn cael ei achosi i bioamrywiaeth y safle o safbwynt systemau hydrolegol. I'r perwyl hyn credir bod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion maen prawf 6.

5.14 **Maen prawf 7 -** Mae'r Datganiad Trafnidiaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn cadarnhau bydd trafnidiaeth i'r safle yn defnyddio'r fynedfa bresennol oddi ar Ffordd Cilgwyn sy'n gwasanaethu'r eiddo a adnabyddir fel Parc gan y dylinwyd y ffordd ddi-ddosbarth yma'n wreiddiol yn arbennig ar gyfer trafnidiaeth drwm oedd yn cario

sbwriel i dwll chwarel Cilgwyn. Defnyddir trafnidiaeth drom yn unig yn ystod y gwaith adeiladu a fydd yn cymryd rhwng 3-4 mis ac yn ystod y cyfnod digomisiynu. Nid oes gwrthwynebiad gan yr Uned Drafnidiaeth yn ddarostyngedig i gynnwys amodau sy’n ymwneud a mesuriadau lliniaru effaith llacharedd ac adroddiad traffic (cytundeb traffig anghyffredin*)*. Credir, felly, bod y bwriad yn dderbyniol ar sail cydymffurfio a gofynion maen prawf 7.

5.15 Gwelir o’r asesiad uchod nad yw’r bwriad yn cydymffurfio gyda holl feini prawf Polisi CH27 ac o ganlyniad ni ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol mewn **egwyddor**. Rhoddir ystyriaeth i’r holl bolisiau perthnasol eraill isod.

**Mwynderau gweledol**

5.16 Disgrifir y safle fel safle agored ac amlwg iawn yn y tirlun sydd wedi ei osod ar lwyfandir rhwng 210m a 250m uwchben lefel y môr ac sy’n cynnwys rhosdir wedi ei amgáu gan waliau ffin cerrig sych o wneuthuriad a dyluniad traddodiadol. Nid yw cymeriad nac edrychiad safle’r cais wedi newid rhyw lawer ers diwedd y 19eg ganrif er bod rhywfaint o’r waliau, erbyn hyn, wedi dirywio mewn mannau. Mae’r safle wedi ei gynnwys o fewn dynodiant Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle a disgrifir y dirwedd hon fel tirwedd sy’n cynnwys *gweddillion hynod caeau bach a waliau cerrig sych o’u cwmpas, yn closio’n dyn at ei gilydd, i’w gweld hyd heddiw ac yn cynrychioli, mae’n debyg, y drefn ddeiliadaeth tir yn gynharach, yn ystod y 18fed ganrif.*

5.17 Mae’r Asesiad Tirlun a Gweledol a gyflwyniwyd gyda’r cais yn cynnwys amryfal asesiadau ac arfarniadau sy’n cynnwys gwybodaeth a gafwyd o Landmap. O ran agweddau gweledol a synhwyriol daw asesiad Landmap i’r casgliad, er bod gwerth cymedrol/canolig yn unig i’r tirlun (gan ystyried bodolaeth peilonau y Grid Cenedlaethol islaw’r safle), dywed bod ymdeimlad o uchder ac amlygiad yma gyda mynediad i olygfeydd eang sydd yn cyfrannu tuag at ymdeimlad o dirlun ucheldir agored. O dan y pennawd maint (*magnitude)* daw Landmap i’r canlyniad bod y safle o werth uchel ac oherwydd hyn bydd datblygu fferm solar ar y safle yn ychwanegu strwythur anodweddiadol yn y tirlun gyda’r canlyniad o golli elfen o naturioldeb i’r safle ac i’w amgylchion. Daw gwaith Gillespies i’r canlyniad bod sensitifrwydd canolig cyffredinol i ddatblygiadau ffermydd solar er bod sensitifrwydd yr ardal yn cael ei gryfhau o ystyried bodolaeth nifer uchel o dderbynwyr gweledol ynghyd ag elfen uchel o drawsnewid rhwng nodweddion tirlun pwysig gyda nodweddion diwyllianol a threftadaeth. Oherwydd y safiad yma nid oes capasiti ar gyfer ffermydd solar o fewn gosodiad y Parc Cenedlaethol. Pe tai’r safle wedi ei leoli y tu allan i osodiad y Parc efallai bydd capasiti ar gyfer ffermydd solar bach/micro yn unig (1ha neu lai) yn yr ardal. Er nad yw gwaith Gillespies yn waith statudol a bod rhaid ystyried pob cais am ddatblygiadau ynni adnewyddiadwy ar haeddiant ei hun rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ba mor dderbyniol fyddai lleoli parc solar o’r raddfa a fwriedir ar y llecyn tir arbennig hwn.

5.18 Er y credir na fydd y parc solar yn creu nodwedd anghyson ac estron o fewn y tirlun ehangach o olygfeydd panoramig o’r safle ei hun daw ad-drawiad y parc solar yn fwyfwy amlwg yn y tirlun wrth nesáu tuag at y safle ei hun ac yn enwedig o’r mannau tramwyo cyhoeddus sydd yng nghyffiniau’r safle. Gan ystyried arwyneb tonnog ac anwastad y safle (sy’n cynnwys amryw helaeth o greigiau a chlogfeini gwasgaredig ynghyd a llecynnau o wlybaniaeth o fewn y rhosdir) nid yw’r swyddogion wedi’u hargyhoeddi gellir gosod y paneli solar mewn rhesi trefnus a thaclus o fewn y safle fel y dangosir ar y cynlluniau. Yn ychwanegol i hyn, a gan

ystyried wyneb anwastad y safle gyda llethr iddo ystyrir na fydd hi'n bosib gosod y paneli solar i uchder cyson a chuddiedig gyda'r canlyniad o greu datblygiad bratiog, amlwg a ddi-drefnus ei olwg gan waethygu ei ad-drawiad gweledol yn y tirlun lleol.

5.19 Yn bresennol, mae cymeriad distaw ac agored i'r safle ond buasai gosod oddeutu 9,000 o baneli solar a'r holl gyfarpar cysylltiedig yn trawsnewid gwedd ac edrychiad y rhosdir sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu'n sylweddol i gymeriad y rhan yma o'r tirlun er gwaethaf presenoldeb peilonau'r Grid Cenedlaethol islaw. Er bod yr ymgeisydd yn cynnig mesuriadau lliniaru ar gyfer lleihau effaith gweledol y datblygiad ar yr amgylchfyd (adnewyddu'r waliau cerrig, gosod paneli dehongli ynghyd a phlannu llwyni o fewn cwrtil anheddau cyfagos - er bod deiliaid yr anheddau hyn wedi gwrthod) ni chredir y byddai mesurau o'r fath yn goresgyn pryderon sylweddol parthed effaith negyddol y bwriad ar fwynderau gweledol yr ardal. I'r perwyl hyn, credir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2, 4 a 9, Polisi A1, A3, B14, B22, B23 a B25 o GDUG ynghyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol a'r arweiniad a roddir yn NCT 8 a 12, CCA: Cymeriad y Dirwedd (2009) ynghyd a'r Arweiniad ymarferol ar Gynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (2011).

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.20 Mae Polisi B23 o GDUG yn datgan gwrthodir cynigion os ydynt yn amharu'n andwyol ar fwynderau'r gymdeithas leol oni bydd modd rhoi rheolau digonol yn eu lle trwy amodau cynllunio neu reolau eraill.

5.21 Mae nifer o anheddau preswyl sefydledig yng nghyffiniau'r safle ac mae'r rhain yn cynnwys Clogwyn Lodge (5m i'r gorllewin), Parc (29m i'r dwyrain – wrthi'n cael ei adnewyddu), Clogwyn House (60m i'r de) ynghyd a Pen Hafodlas (75m i'r de). Ystyrir mai'r anheddau bydd yn cael eu heffeithio mwyaf, ar sail dirywiad mewn amodau byw yw Clogwyn Lodge a Clogwyn House. Lleolir Clogwyn Lodge ar gyrion de-orllewinol y safle ar lecyn o dir sy'n is na ffin gorllewinol safle'r cais. Er fod y brif edrychiad yn hwynebu'r gorllewin mae nifer o ffenestri yng nghefn yr eiddo sy'n hwynebu'r safle ynghyd a'r gardd sy'n ymestyn allan i'r gogledd ac i'r gorllewin. Mae cymeriad ac awyrgylch distaw ac hamddenol i'r safle ar hyn o bryd gyda defnydd o ddwysedd isel iddo (tir pori ar gyfer defaid). Pe caniateir y cais hwn bydd cymeriad presennol yn cael ei effeithio'n andwyol gan strwythurau o raddfa helaeth ac o ddyluniad a ffurf diwydiannol sy'n anghydnaws a'r sefyllfa bresennol. Credir buasai'r fath fwriad yn creu datblygiad byddai'n ormesol ei edrychiad i ddeiliaid Clogwyn Lodge sydd hefyd wedi gwrthwynebu i'r bwriad ar y sail yma. Ystyrir y byddai mwynderau preswyl deiliaid Clogwyn House hefyd yn cael eu heffeithio gan y datblygiad ar sail effaith andwyol ar fwynderau gweledol gyda'r bwriad yn traws newid cymeriad y tirlun sydd gyfagos i'r eiddo o fod yn dirlun naturiol ac hamddenol ei ddefnydd a'i edrychiad i fod yn dirlun o strwythurau anghydnaws a diwydiannol eu hedrychiad – mae gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan ddeiliaid yr annedd hwn. Credir hefyd bydd y bwriad yoherwydd ei faint a'i natur yn yn gyfystyr a gor-ddatblygiad fyddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau cyffredinol cerddwyr sy'n defnyddio'r llwybrau cyhoeddus poblogaidd cyfagos gyda golygfeydd agored a chlir i'w cael ar hyn o bryd.

5.22 Mae gwrthwynebiadau eraill a dderbyniwyd gan drigolion lleol yn datgan pryder ynglŷn â cholli preifatrwydd oherwydd lleoliad y 4 camera cylch cyfyng. Fodd bynnag, gan ystyried lleoliad y camerâu yng nghorneli'r safle mewn perthynas â lleoliad yr anheddau preswyl ni chredir byddai effaith annerbyniol ar breifatrwydd trigolion lleol ac i'r perwyl hyn credir bod y camerâu cylch cyfyng yn dderbyniol.

Mae pryderon aflonyddwch sŵn hefyd wedi eu mynegi ynghyd ac effaith llacharedd o wynebau'r paneli solar yn ystod tywydd heulog. Mae'n anorfod bydd cyfnod o aflonyddwch yn bodoli yn lleol wrth ddatblygu'r safle ond rhaid cofio mai cyfnod dros dro fydd hyn ac ni ystyrir bod hyn yn annerbyniol i fwynderau'r trigolion lleol. Nid yw natur y bwriad yn golygu bydd unrhyw gynnydd mewn sŵn, drewdod, llwch na nwyon yn ystod y cyfnod gweithredu. Fel rhan o'r cais cyflwyniwyd Asesiad Llacharedd gan yr ymgeisydd sy'n datgan ni fydd ad-drawiad sylweddol ar fwynderau'r trigolion lleol ar sail llacharedd.

5.23 Gan ystyried yr uchod ystyri'r nad yw'r bwriad yn llwyr cydymffurfio gyda Polisi B23 o GDUG gan ei fod yn debygol o amharu'n andwyol ar vfwynderau preswyl deiliaid tai cyfagos a'i fod hefyd yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau cyffredinol yr ardal. I'r perwyl hyn ni chredir fod y bwriad yn cydymffudrfio a gofynion Polisi B23 o GDUG..

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.24 Mae Polisi CH33 o GDUG yn ymwneud a sicrhau diogelwch ar ffyrdd a strydoedd. Yn yr achos hwn mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Datganiad Trafnidiaeth gyda'r cais sy'n cyfeirio at effeithiau dichonol o gael mynediad i'r safle ac o ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol gan gerbydau trwm am gyfnod dros dro. Er bod y ddogfen hon wedi ei chyflwyno mae'r Uned Drafnidiaeth yn datgan bydd angen amodau yn ymwneud a mesuriadau lliniaru effaith llachredd y paneli solar, cyflwyno datganiad dull adeiladu ynghyd a chyflwyno adroddiad traffig a chytundeb traffig anghyffredin. Yn ddarostyngedig ar gynnwys y fath amodau credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi CH33 o GDUG.

5.25 Mae Polisi CH22 yn ymwneud a gwarchod ac hyrwyddo pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy cyhoeddus yng Ngwynedd. Cadarnheir bydd y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus sydd o fewn ac ar gyrion y safle yn cael eu diogelu yn ystod y gwaith adeiladu. Yn ychwanegol i hyn bwriad yr ymgeisydd i'w i atgyweirio gwyneb rhannau o'r llwybrau hyny sydd angen sylw ar gyfer cerddwyr. I'r perwyl hyn, credir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion Polisi CH22 o GDUG.

**Materion bioamrywiaeth**

5.26 Mae Polisi B15, B16, B17, B20 a B21o GDUG yn ymwneud a'r angen i warchod safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol/lleol ynghyd a gwarchod rhywogaethau a'u cynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol,cenedlaethol ynghyd a choridorau bywyd gwyllt, cysylltiadau cynefonoedd a Cherrig Sarn. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno gwerthusiad rhagarweiniol ecolegol gyda'r cais sy'n cyfeirio at effeithiau dichonol y bwriad ar gynefin fflora a ffawna lleol.

5.27 Fel y cyfeiriwyd ato uchod mae gan Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wrthwynebiadau sylweddol i'r cais sy'n ymwneud a cholli a difrodi cynefin o bwysigrwydd bioamrywiaeth Ewropeaidd a chenedlaethol. Disgrifir y safle fel rhosdir sy'n cynnwys rhywogaethau fel grug, eithin, *tormentil*, llysiau'r cywer, maeswellt, hesgen a chlogfeini. Mae'r safle hefyd yn fan pwysig sy'n cefnogi adar fel y bran Gernyw a'r ehedydd. Mae pwysigrwydd fflora a ffawna'r rhosdir ynghyd a phwysigrwydd y safle fel safle bioamrywiaeth yn cael ei fynegi drwy'r ffaith bod y rhywogaethau uchod wedi eu rhestri gan UK BAP (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth) ar sail eu

bod wedi cael eu diogelu gan reoliadau Ewropeaidd (*Habitats Directive,1992)* ac Adran 42 o'r Ddeddf *Natural Environmnet and Rural Communities*, 2006.

5.28 Gan ystyried yr uchod mae'n anochel bydd defnyddio'r safle ar gyfer parc solar ynghyd a gosod a lleoli strwythurau amrywiol yn wasgaredig yn achosi niwed parhaol sylweddol i'r cynefin pwysig a sensitif yma. Mae sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth yn dod i'r casgliad bydd y datblygiad yn colli/achosi difrod i oddeutu 5ha o gynefin rhandir sy'n gynefin o bwysigrwydd Ewropeaidd yn ogystal â cholli man magu ar gyfer ehedydd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. I'r perwyl hyn, credir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2 a 9, Polisi A3, B15, B16, B17, B20 a B21 o GDUG ynghyd a chyngor a gynhwysir yn CCA:Safleoedd Bywyd Gwyllt (2010), Polisi Cynllunio Cymru, NCT 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur ynghyd ag Arweiniad Ymarferol Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).

**Amgylchedd hanesyddol**

5.29 Mae Polisi B3, B7 a B14 o GDUG yn datgan y pwysigrwydd o ddiogelu a gwarchod gosodiad adeiladau rhestredig, safleoedd o bwysigrwydd archeolegol a chymeriad tirweddau parciau a gerddi hanesyddol. Cyflwyniwyd Asesiad o Bwysigrwydd Effaith Datblygiadau ar y Dirwedd Hanesyddol ynghyd a Datganiad Archeolegol, Diwylliannol a Threftadaeth gyda'r cais er mwyn ceisio dangos na fydd y bwriad yn amharu'n andwyol ar asedau hanesyddol dynodedig yn nalgylch safle'r cais. Fodd bynnag, cyflwyniwyd sylwadau gan Swyddog Cadwraeth y Cyngor, CADW a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd sy'n datgan i'r gwrthwyneb. Mae gwrthwynebiadau'r ymgynghorwyr statudol hyn i'r bwriad yn ymwneud a dau brif gonsyrn:-

- Effaith y bwriad ar osodiad yr eiddo a adnabyddir fel Parc; ac
- Effaith y bwriad ar y Ttirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle.

5.30 Saif yr adeilad rhestredig gradd II o'r enw Parc oddeutu 29m i'r dwyrain o ffin ddwyreiniol safle'r cais ac fe'i disgrifir gan CADW fel *bwthyn tyddynwr wedi ei osod o fewn cyfundrefn caeau ac yn nodweddiadol o adeiladau cynhenid bach yr ardal. Mae'r bwthyn yn chwarae rhan hanesyddol allweddol ym mhatrwm anheddiadol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant cynner llechi'r ardal*. Er gwaethaf bod y bwthyn yn y broses o gael ei adnewyddu, bod wal garreg sych oddeutu 1.6m o uchder yn diffinio ffin ddwyreiniol y safle a bod sied amaethyddol wedi ei ganiatáu i'r gogledd o'r bwthyn ei hun bydd agosatrwydd y datblygiad ynghyd a'i raddfa a'r adeiladwaith cysylltiedig yn amharu'n andwyol ar osodiad cyd-oddefol presennol y bwthyn ynghyd a'r gyfundrefn caeau cyfagos sydd yn rhan annatod o gymeriad a gosodiad y bwthyn ynghyd a'r caeau cysylltiedig. Rhaid ystyried y datblygiad arfaethedig ar osodiad y bwthyn ac i'r perwyl hyn credir buasai'r datblygiad yn creu strwythurau gormesol o fewn gosodiad hanesyddol y bwthyn.

5.31 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei ddynodi gan CADW ac ICOMOS UK fel Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle ac wedi ei ddisgrifio fel ardal a ganddo *weddillion hynod caeau bach a waliau cerrig sych o'u cwmpas, yn closio'n dyn at ei gilydd, i'w gweld hyd heddiw ac yn cynrychioli, mae'n debyg, y drefn ddeiliadaeth tir yn gynharach, yn ystod y 18fed ganrif.*

5.32 Y brif flaenoriaeth o fewn y fath ardaloedd yw diogelu a dehongli safleoedd archeolegol a chyfundrefnau caeau traddodiadol sy'n arddangos dyfnder amser ynghyd a chymeriad cynhenid adeiladau a natur wasgaredig aneddiadau'r ardal. Credir buasai caniatáu'r cais hwn yn tanseilio'r flaenoriaeth yma ar sail natur, graddfa a ffurf y datblygiad gan gyflwyno nodwedd estron ac anghydnaws yn y tirlun hanesyddol bwysig hwn. Mae'r tirlun hanesyddol a diwylliannol fel y'i cynhwysir yn Landmap yn asesu'r ardal o werth rhagorol ac yn dod i'r canlyniad buasai bwriad o'r fath yn cael effaith sylweddol (*substantial adverse)* ar y tirlun lleol gyda'r effaith yn lleihau gan ystyried y tirlun ehangach.

5.33 Mae'r Datganiad Archeolegol, Diwyllianol a Threftadaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn cadarnhau mai effaith niwtral bydd yr effaith ar Glynllifon a'r Parc cysylltiedig ag oherwydd ei bellter o'r safle (3.2km) fe gytunir gyda'r farn yma.

5.34 Mae pryder hefyd wedi cael ei fynegi gan CADW a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd, pe caniateir y cais, buasai hyn yn ei dro, yn tanseilio ymgais y Cyngor a CADW i enwebu'r ardal fel Ardal Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. Fodd bynnag, nid oes ffin bendant ar gyfer y safle wedi ei gytuno ac o ganlyniad credir ei bod yn gynamserol i ddefnyddio'r pryder yma fel rheswm i wrthod y cais.

5.35 Gan ystyried yr asesiad uchod credir bod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 3, Polisi B3, B7a B12 o GDUG ynghyd a'r cyngor a gynhwysir yng Nghylchlythyrau 60/96 a 61/96, Polisi Cynllunio Cymru, NCT 12 Dylunio (2014) ynghyd ag arweiniad Ymarferol Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011) sydd oll yn ymwneud gyda'r pwysigrwydd o warchod gosodiad adeiladau rhewstredig, gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boe dyn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosdiad yn ogystal a gwarchod tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.36 Mae'r asesiad uchod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau cynllunio perthnasol a dderbyniwyd o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ac ni ystyrir fod unrhyw fater cynllunio perthnasol wedi ei dderbyn sy'n gorbwyso'r ystyriaethau polisi a'r cyngor perthnasol a nodir yn yr asesiad hwn.

## 6. Casgliadau:

6.1 Yng nghyd destun y polisiau cynllunio lleol a chyngor cenedlaethol a restrir uchod sy'n ymwneud a datblygiadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddiadwy a chynaliadwy mae'n hanfodol cloriannu'r angen am ddatblygiadau o'r fath yn erbyn eu heffaith bosibl ar ansawdd y dirwedd ac ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol eraill. Yn yr achos arbennig hwn ystyrir bod yr effeithiau a nodir aa a drafodir yn yr asesiad uchod yn gwrthdaro yn erbyn polisi a chyngor lleol a chenedlaethol perthnasol syd do blaid yr egwyddor o ddatblygiadau o'r fath gyn belled eu bod hefyd yn cydymffurfio gyda pholisiau eraill. Mae'r aseiad uchod yn amlinellu yn fanwl pam na ystyrir fod y safle hwn yn addas ar vgyfer lleoli parc solar fel sydd wedi ei gyflwyno ac yn dod i'r casgliad fod y bwriad ynn groes i nifer o bolisiau lleol a chendlaethol fel a nodir yn yr asesiad ac yn y rhesymau gwrthod isod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod – rhesymau :-

1. Mae’r bwriad yn annerbyniol o ystyried ei leoliad, graddfa a’i amlygrwydd yn y tirlun lleol, ei effaith andwyol ar fwynderau gweledol trigolion cyfagos ynghyd a’r cyhoedd hyny sy’n cerdded y mannau tramwy cyhoeddus cyfagos at ddibenion hamdden a mwynderol. O’r herwydd, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2, 4 a 9, Polisi A1, A3, B14, B22, B23, B25 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Nodyn Cyngor Technegol 8 a 12, Canllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Dirwedd (2009) a’r Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).

2. Mae’r bwriad yn annerbyniol o ystyried ei leoliad, graddfa a’i amlygrwydd yn y tirlun hanesyddol bwysig ynghyd a’i effaith andwyol ar osodiad adeilad rhestredig gradd II Parc gerllaw. O’r herwydd, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 3, Polisi B3, B7 a B12 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Cylchlythyrau 60/96 a 61/96 y Swyddfa Gymreig, Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio (2014) a’r Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).

3. Mae’r bwriad yn annerbyniol ar sail ei leoliad, gwneuthuriad, ffurf a’i raddfa gan y byddai’n golygu colli ac achosi difrod parhaol i rhostir sy’n gynefin o bwysigrwydd Ewropeaidd a chenedlaethol. O’r herwydd, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2 a 9, Polisi A3, B15, B16, B17, B20 a B21 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Canllawiau Cynllunio Atodol: Safleoedd Bywyd Gwyllt (2010), Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur ac Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).